



PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 31 Gorffennaf 2019 am 5.00 pm
ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40
2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd J Bonetto	Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd G Caple
Y Cyngorydd A Chapman	Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd A Crimmings	Y Cyngorydd J Cullwick
Y Cyngorydd G Davies	Y Cyngorydd M Diamond
Y Cyngorydd J Elliott	Y Cyngorydd S Evans
Y Cyngorydd S.Evans	Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd E George	Y Cyngorydd E Griffiths
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd G Holmes	Y Cyngorydd L Hooper
Y Cyngorydd G Hopkins	Y Cyngorydd P Howe
Y Cyngorydd G Hughes	Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd G Jones
Y Cyngorydd L Jones	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd D Macey	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd Owen-Jones	Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd S Pickering	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd S Powell	Y Cyngorydd A Roberts
Y Cyngorydd J Rosser	Y Cyngorydd G Stacey
Y Cyngorydd M Tegg	Y Cyngorydd G Thomas
Y Cyngorydd W Treeby	Y Cyngorydd R Turner
Y Cyngorydd L Walker	Y Cyngorydd M Weaver
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd E Webster
Y Cyngorydd D Williams	Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd T Williams	Y Cyngorydd C Willis
Y Cyngorydd R Yeo	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Cwestiynau Cyhoeddus - Eitem 6

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser - "Cefais fy mhenodi i Gorff Llywodraethu Coleg y Cymoedd am gyfnod o 4 blynedd yn ail Gyfarfod Blyneddol Cyffredinol ar hugain y Cyngor (17.05.17), ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber - "Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Heol y Celyn ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings ddatganiad o fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ynglŷn â'r mater "Rydw i'n cael fy nghyflogi gan Coleg y Cymoedd, sy'n cael ei drafod yn un o'r cwestiynau"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis - "Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Fychan "Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Evan James ac Ysgol Coedylan ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell "Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Coedpenmaen ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher "Roeddwn i'n arfer dysgu yn Ysgol Uwchradd Pontypridd"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto - "Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Pickering - "Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol E Griffiths - "Rwy'n ymddiriedolwr ar Gylch Meithrin Evan James"
- Mr C Bradshaw - Prif Weithredwr - "Cefais fy mhenodi i Gorff Llywodraethu Coleg y Cymoedd am gyfnod o 4 blynedd yn ail Gyfarfod Blyneddol Cyffredinol ar hugain y Cyngor (17.05.17)."

Eitem 14 - Cynllun Darparu Gwasanaethau

- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol Andrew Morgan "Fi yw Cadeirydd Cabinet Rhanbarthol Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd."

37 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol H Boggis, A Calvert, A Davies-Jones, L De- Vet, A Fox, M Fidler Jones, M Forey, D Grehan, K Libby-Jones, W Jones, K Morgan, S Rees, S Rees-Owen, E Stephens a G Williams.

38 CYHOEDDIADAU

- Dechreuodd y Cadeirydd trwy wneud nifer o gyhoeddiadau. Y cyntaf oedd croesawu'r Aelod newydd, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol E. M Griffiths, i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor, ac ar ôl hynny fe ddywedodd wrth yr Aelodau fod y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S Rees-Owen bellach adref o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth ar ei chefn. Nodwyd dymuniadau da'r Aelodau.
- Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau ei fod, yn ystod ei flwyddyn yn y swydd fel Maer, wedi codi dros £40,000 ar gyfer elusennau lleol. Diolchodd i'r Cynghorwyr, Swyddogion a chymunedau hael Rhondda Cynon Taf am eu rhoddion dros y flwyddyn.
- Dywedodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber wrth yr Aelodau am Daith Feicio Elusennol ddiweddar o Baris i Lundain, a gynhaliwyd gan Ashley Christopher, mab y diweddar Anthony Christopher, cyn Arweinydd y Cyngor. Gofynnodd i'r Aelodau gefnogi'r digwyddiad codi arian a gynhaliwyd ar gyfer Gofal Canser Macmillan gydag unrhyw roddion sy'n bosibl.
- Hefyd, gofynnodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Harries i'r Aelodau am roddion i gefnogi Ms E Sullivan a oedd yn codi arian trwy neidio allan o awyren o 15,000 troedfedd er budd Cymdeithas Alzheimer.
- Cyfeiriodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman at y swm sylweddol o arian a godwyd gan Ysgol Gyfun Aberpennar ar gyfer nifer o Elusennau Lleol yn yr achlysur Just Giving diweddar, sef cyfanswm o dros £10,000, ac aeth yr Aelodau ymlaen i longyfarch yr holl ddisgyblion a gymerodd ran.
- Cyflwynodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Williams ddeiseb ar ran

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan mewn perthynas â chais cynllunio a datblygu diweddar yn Nhonyrefail.

- Ymunodd yr aelodau â Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox i longyfarch Ms Rhian Morgan Ellis ar ôl iddi hi ennill gwobr Pennaeth y Flwyddyn yng Ngwobrau blynyddol Addysgu Proffesiynol Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Cox fod y wobr yn ganmolïaeth i'r ysgol (Ysgol Gyfun Cwm Rhondda) ac iddi hi yn bersonol.
- Ar ran Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby a'i hun, llongyfarchodd yr Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan, Ysgol y Forwyn Fair Eglwys Gatholig Rhufain am dderbyn Gwobr Parchu Hawliau Aur UNICEF ar gyfer Ysgolion. Mae'r wobr yma ar gyfer ysgolion sydd wedi gwreiddio hawliau plant ym mhob rhan o'r ysgol drwy eu polisiau, ymarfer ac ethos.

39 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo'r ddwy set o gofnodion ar gyfer dau gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd (am 4pm a 5pm) ar 19 Mehefin 2019 fel adlewyrchiadau cywir o'r cyfarfodydd.

40 DATGANIADAU

- **Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â Brexit**

Gwnaeth yr Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan, sylwadau am y sefyllfa ddiweddar a'r materion sy'n ymwneud â Brexit, yn ogystal â'r trafodaethau sydd bellach yn digwydd cyn y dyddiad cau ar 31 Hydref, yn dilyn yr Etholiad Arweinyddiaeth Geidwadol diweddar. Clywodd yr Aelodau bod Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â'r Arweinydd er mwyn ailsefydlu'r Is-grŵp Partneriaeth, a bod paratodau ar y gweill ar gyfer Brexit 'Dim Bargaen'. Cadarnhaodd yr Arweinydd pe bai Brexit 'Dim Bargaen' yn digwydd, yna byddai cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn cael ei alw yn ystod mis Hydref i drafod y mater. Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am y ddarpariaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i'r Prif Weithredwr gael gafael ar gronfeydd gwerth hanner miliwn, y gallai fod angen eu defnyddio i amddiffyn gwasanaethau a chadwyni cyflenwi ar gyfer y Cyngor a busnesau lleol. Cytunodd yr Arweinydd i hysbysu'r Aelodau am unrhyw ddiweddariadau pellach yn ôl yr angen.

41 CYFLWYNIAD GAN Y CYHOEDD - "ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG YM MHONTYPRIDD"

Derbyniodd yr aelodau Ms K Hadley, a roddodd gyflwyniad PowerPoint mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhontypridd, gan gyfeirio at y penderfyniadau diweddar a wnaed gan y Cabinet mewn perthynas â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cynigion i wella'r ddarpariaeth Addysg yn ardal ehangach Pontypridd. Gorffennodd Ms Hadley ei chyflwyniad trwy ailadrodd arwyddair ysgol Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton; "Eu Hiath A Gadwant? Their Language They Keep".

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Hadley am ei hamser a'i chyflwyniad yn y cyfarfod.

42 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cwestiwn gan Mrs M Chinnock i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

“A oes modd i Arweinydd y Cyngor, Andrew Morgan wneud sylwadau am y pellter y mae'n rhaid i riant/cynhaliwr/ gwarcheidwad o Ynysybŵl deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn mynychu noson rhieni neu wasanaeth ysgol yn Ysgl Pont Siôn Norton a'r pellter y bydd ei angen i deithio i ysgol yn Rhydfelen? ”

Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

“Dyweddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan mai'r pellter sydd angen i rieni deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o Derfynell Ynysybŵl i YGG Pont Siôn Norton yw 5.8 milltir, a'r pellter y byddai'n rhaid i rieni deithio ar gludiant cyhoeddus o Derfynell Ynysybŵl i Ysgol Gynradd Heol y Celyn yw 7.4 milltir. ”

Cwestiwn atodol gan Mrs M Chinnock:

"Dyweddodd Mrs Chinnock fod y pellteroedd hynny'n anghywir a soniodd am ei phrofiad o deithio'r llwybr o Ynysybŵl i Gilfynydd am y 38 mlynedd diwethaf. Yn ogystal â hynny, gofynnodd Mrs Chinnock am fanylion ynglŷn â'r darpariaethau a gaiff eu rhoi ar waith mewn perthynas ag Ysgol Gyfun Evan James wrth baratoi ar gyfer disgyblion Pont Siôn Norton, a'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r ysgol o ran trafnidiaeth, a gofynnodd i'r Arweinydd wneud sylwadau am yr un ddarpariaeth mewn perthynas ag YGG Abercynon. ”

Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

Dyweddodd yr Arweinydd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu mewn perthynas â'r darpariaethau sydd ar gael.

Cwestiwn gan Ms S. Holmes i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser:
Gan nad oedd yr aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod, byddai ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn yn cael ei ddarparu.

Cwestiwn gan Ms A Gerrard i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser:
Gan nad oedd yr aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod, byddai ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn yn cael ei ddarparu.

Cwestiwn gan Ms L. Chinnock-Davies i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

"A oes modd i Arweinydd y Cyngor, Andrew Morgan, wneud sylwadau am y pellter, mewn milltiroedd, y byddai angen i'r 60% o blant o Ynysybwl, Glyn-coch a Choed y Cwm, sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Pont Siôn Norton ar hyn o bryd, deithio pe bai ysgol Gymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn y safle gwag yng Nglyn-coch (lle nad oes cynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn ôl llawer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a sicrwydd gan RhCT). "

Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

"Dywedodd yr Arweinydd nad oedd yn bosibl iddo fel Arweinydd y Cyngor wneud sylwadau am y goblygiadau ar gyfer teithio i ysgol nad yw'n bodoli ar hyn o bryd, gan y byddai angen sefydlu dalgylchoedd. Ychwanegodd y byddai'r 60% y cyfeiriwyd ato o bosibl yn cynnwys 130 o ffigurau unigol, yn dibynnu ar ble roedd pob disgybl yn cael ei godi. Aeth yr Arweinydd ymlaen i nodi nad oedd y dehongliad o'r ymateb i'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth y cyfeiriwyd atynt yn gywir, ac nad oedd unrhyw ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth wedi nodi nad oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygu'r safle yn y dyfodol. Ychwanegodd mai'r hyn a ddywedwyd oedd "Bydd asesiad o'r ysgolion a'r dalgylchoedd yn yr ardal hon, yn ogystal ag eraill yn y Fwrdeistref Sirol, yn cael ei gynnal y ystod y cam nesaf o adolygiadau ad-drefnu ysgolion parhaus y Cyngor."

Cwestiwn atodol gan Mrs Chinnock-Davies:

"Gofynnodd Mrs Chinnock Davies i'r Arweinydd a oedd hi'n wir bod y cynlluniau cyfredol i symud y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o'r cymunedau yn fesur llym, sy'n gwahaniaethu ac yn ynysu'r gymuned ac yn gwahaniaethu yn erbyn diwylliant Cymru?"

Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

"Dywedodd yr Arweinydd nad oedd hwn yn fesur llym ac nad yw'n gwahaniaethu gan nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn cael ei dileu. Ychwanegodd fod dal modd i rieni wneud fanteisio ar ddewisiadau ac, yn syml, mai adeilad newydd a gwell sy'n cael ei ddarparu. "

Cwestiwn gan Mr L. Herniman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser: Gan nad oedd yr aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod, byddai ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn yn cael ei ddarparu.

Cwestiwn gan Ms C. Liles i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser: Gan nad oedd yr aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod, byddai ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn yn cael ei ddarparu.

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Cullwick i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins:

“A all yr Aelod nodi faint o'r Cabinet sy'n siarad Cymraeg, y rhai sy'n dysgu ar hyn o bryd a'r rhai sy'n bwriadu dysgu Cymraeg yn y flwyddyn academaidd nesaf?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins:

“Dyweddodd y Cyngorydd Hopkins nad oedd mewn sefyllfa i wneud sylwadau am y cwestiwn a ofynnwyd, gan fod hwn yn fater personol i'r holl Aelodau, ac nad oedd yn fater o bolisi y byddai'n gyfrifol amdano. Ychwanegodd fod siarad y Gymraeg yn ddewis i bob Aelod gan ychwanegu efallai na fydd rhai Aelodau'n teimlo'n ddigon cymwys neu gyfforddus i siarad yr iaith mewn unrhyw leoliad ffurfiol neu o flaen eraill”.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Cullwick:

Dyweddodd y Cyngorydd Cullwick ei bod hi'n galonogol gweld yr agweddau newidiol at yr Gymraeg ledled Rhondda Cynon Taf ac yn y Siambr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cyfeiriodd at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd dros filiwn o siaradwyr Cymraeg a gwnaeth sylwadau am rôl yr Arweinydd a'i Gabinet i gefnogi'r targed hwn. Cyfeiriodd yr Aelod at y cyrsiau niferus sydd ar gael a'r cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg. Gofynnodd yr Aelod i'r Cyngorydd Hopkins a oedd yn cytuno bod cynnal yr Eisteddfod yn gyfle da i bawb geisio gwella eu sgiliau ychydig?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins:

“Dyweddodd y Cyngorydd Hopkins fod gwella sgiliau Cymraeg yn fater personol i bawb yn y Siambr ac ailadroddodd eto nad oedd hwn yn fater polisi. Dywedodd y Cyngorydd Hopkins sylwadau ei fod e'n cefnogi targed Llywodraeth Cymru a'r gefnogaeth a ddarperir yn y Siambr i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Aeth y Cyngorydd Hopkins ymlaen i gyfeirio at ystod o gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael drwy'r Cyngor, gan gynnwys tiwtor mewnol, pob un yn rhad ac am ddim. Dywedodd fod 455 o staff wedi cael gwersi mewn perthynas â'r Gymraeg yn ddiweddar, a bod rhai Aelodau o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol hefyd wedi derbyn hyfforddiant. Gorffennodd trwy ychwanegu y gallai pob Aelod fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael a chyfeiriodd hefyd at wefan Llywodraeth Cymru www.learnwelsh.cymru am gyfleoedd pellach.”

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Williams i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor, y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber:

“Yn eich rôl fel Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor, a allwch chi ddweud a oes Dangosydd Perfformiad sy'n mesur amseroedd ymateb e-bost rhwng swyddogion ac Aelodau?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

“Dywedodd y Cynghorydd Webber nad oes Dangosydd Perfformiad penodol ar waith sy'n mesur amseroedd ymateb e-bost rhwng Swyddogion ac Aelodau Etholedig - fodd bynnag, mae'r trefniadau a nodir yn cael eu monitro'n barhaus i sicrhau bod Aelodau Etholedig yn cael adborth amserol ar unrhyw ymholiadau a wneir. Cyfeiriodd y Cynghorydd Webber hefyd at y Polisi Defnydd Derbyniol o'r Rhyngwyd ac E-bost sydd ar waith gan y Cyngor, a daeth â'i hymateb i ben drwy ychwanegu ei hymrwymiad i helpu'r Cynghorydd Williams i ddatrys unrhyw faterion yr oedd hi'n eu hwynebu.”

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Williams:

“Dywedodd yr Aelod fod yr amseroedd ymateb yr oedd hi wedi'u profi yn iawn fel arfer, ond bu ambell achlysur pan na chafwyd ymatebion, gan olygu ei bod hi wedi gorfod erlid swyddogion am ymateb, fel arfer ar ôl ychydig wythnosau.”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

“Dywedodd y Cynghorydd Webber ei bod yn hapus ac yn hyderus i gynorthwyo'r Cynghorydd Williams gyda'i hymchwiliad ac i ddatrys y mater yn briodol.”

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber:

“A oes modd i'r Dirprwy Arweinydd amlinellu rhaglen achlysuron barhaus y Cyngor gan gynnwys pa gefnogaeth y mae'r Cyngor yn ei darparu i ganol trefi?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

“Dywedodd y Cynghorydd Webber fod y Cyngor eisoes wedi cyflwyno cyfres o achlysuron gwych yn Rhondda Cynon Taf eleni, gan gynnwys Diwrnod y Lluoedd Arfog (dros 5000 yn bresennol), Picnic y Tedis (dros 3000 yn bresennol) a Gŵyl Aberdâr, gan ychwanegu bod yr achlysuron yma'n rhad ac am ddim.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod Cegaid o Fwyd Cymru'n dychwelyd i Barc Coffa Ynysangharad ar y penwythnos, gyda'r achlysur yn cael ei noddi gan Fragdy Morgannwg. Bythefnos yn ddiweddarach, bydd Orchard Entertainment yn cynnal Penwythnos Mawr Ponty, a fydd yn cael ei arwain gan Ocean Colour Scene.

Gan droi at y gaeaf, cyfeiriodd y Cynghorydd Webber at Rasys Nos Galan, sydd bob amser yn achlysur poblogaidd, yn ogystal ag achlysuron Nadoligaidd blynyddol yng nghanol y trefi, a gaiff eu cyflawni mewn partneriaeth â busnesau lleol yn Nhreorci, Glynrhedynog, Tonypandy, y Porth, Aberdâr ac Aberpennar. Darperir cefnogaeth hefyd ar gyfer achlysuron canol tref ym Montypridd a Llantrisant.

Gorffennodd y Cynghorydd Webber drwy roi sylwadau am y gefnogaeth a roddwyd i'r achlysur Cymraeg, Parti Ponty, ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dilyn y cyhoeddiad diweddar y bydd hi'n dod i Rhondda Cynon Taf yn 2022, yn ogystal â'r achlysuron a gynhelir trwy gydol y flwyddyn mewn perthynas â'r Lluoedd Arfog gyda'r dathliadau ar y gweill mewn perthynas o ddiwrnod VE a Brydr Prydain. ”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple:

“Gwnaeth y Cyngorydd Caple sylwadau am y gefnogaeth gref a ddarperir yng nghanol y trefi a'r amrywiaeth o achlysuron a gynhaliwyd. Aeth ymlaen i ofyn am wybodaeth mewn perthynas â pharc Treftadaeth Rhondda a Thaith Pyllau Glo Cymru.”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

“Ychwanegodd y Cyngorydd Webber, er nad oedd yr atyniad hwn yn dod o dan ei phortffolio, byddai'r garfan achlysuron yn cynnal yr achlysur Rhialtwch Calan Gaeaf yn ystod Calan Gaeaf ac Ogor Teganau Siôn Corn yno, a soniodd am ei profiadau ei hun o fynychu'r achlysuron hyn.

Gwnaeth yr Aelod sylwadau am Daith Pyllau Glo Cymru a'r teithiau tywys a'r profiadau sydd ar gael, sy'n helpu i hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol cymunedau Rhondda Cynon Taf.”

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

“A allwch chi ddweud pa gynlluniau sydd gan yr Awdurdod i helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn benodol pa gynlluniau sydd gan yr Awdurdod i gynyddu darpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

“Dyweddodd y Cyngorydd Rosser fod Swyddogion wedi mynychu seminar ymgynghori yn ddiweddar er mwyn paratoi ar gyfer canllawiau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) newydd Cymru, a fydd yn cael ei gyflwyno o 2021. Ychwanegodd y bydd canllaw newydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys targedau uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y Sir. Byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes, a'r ymrwymadau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud, yn sylfaen gadarn ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ragorol i wireddu'r uchelgais o ran nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Rosser hefyd at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet sy'n nodi cynlluniau Rhondda Cynon Taf ar gyfer rheoli a chynyddu nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg a gwella cyfleusterau addysgol. Rhoddodd y Cyngorydd Rosser fanylion pellach am y buddsoddiad sy'n digwydd mewn ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol.”

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox:

“Croesawodd y Cyngorydd Cox y gefnogaeth ar draws y Siambr i gyflawni targed Llywodraeth Cymru gan ychwanegu bod angen i bawb symud o fod yn wylwr diniwed i fod yn gyfranogwr gweithredol. Parhaodd trwy gyfeirio at yr ymgynghoriad cyfredol mewn perthynas â Chynllun Cymraeg mewn Addysg a holodd a fyddai'r Cyngor yn cyflwyno ymateb cadarnhaol i'r ymgynghoriad, a fyddai'r Cyngor yn mabwysiadu'r targed uwch ac a gytunodd Aelod o'r Cabinet y

dylai unrhyw gynlluniau yn y dyfodol gael eu hystyried gan y Pwyllgor craffu perthnasol? ”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

“Dyweddodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r Cyngor, ar ôl gorffen yr ymgynghoriad, yn gallu penderfynu sut i symud pethau ymlaen. O ran y cwestiwn mewn perthynas â chraffu, ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai hyn yn fater i'r pwyllgor craffu ei benderfynu.”

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnewch chi amlygu unrhyw ran o'ch cyfrifoldebau portffolio sydd ddim yn cael buddsoddiad digonol?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Dyweddodd yr Arweinydd fod llawer o feysydd ar draws y Cyngor a allai wneud gyda llawer mwy o fuddsoddiad, ond dywedodd nad oedd hyn yn bosibl oherwydd cyni cyllidol. Ychwanegodd yr Arweinydd, er bod rhai meysydd yn derbyn lefelau uwch o fuddsoddiad nag eraill, bod pob maes yn y portffolio yn cael ei asesu a'i ganolbwyntio arno yn dibynnu ar lefel yr angen. Dywedwyd wrth yr Aelod, yn dilyn y buddsoddiad cyfalaf a refeniw mewn meysydd fel Priffyrdd, Rheoli Traffig a phrosiectau Strategol, ei bod hi'n anodd cydbwysu hyn â'r angen am fuddsoddiad yn nau faes blaenoriaeth y Cyngor, sef Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gorffennodd yr Arweinydd trwy ddweud y byddai'n edrych i wneud i fuddsoddi ar draws y Cyngor pan fyddai modd gwneud hynny.”

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman:

“Cyfeiriodd y Cyngorydd Jarman at ddi-ddymu Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006 a gwnaeth sylwadau pellach ar Domen Cefn Pennar yn ei ward, a restrwyd yn flaenorol o dan gynllun adfer tir, er na chafodd hyn ei gwblhau. Aeth y Cyngorydd Jarman ymlaen i ychwanegu, gan nad oes grantiau adfer tir ar gael bellach, ei bod yn credu bod ardaloedd adfer tir yn destun tan-fuddsoddi ar hyn o bryd, a holodd a allai'r Cyngor ariannu'r cynllun hwn o'r gorffennol? ”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Dyweddodd y Cyngorydd Morgan y byddai'r Cyngor yn adolygu cyllid cyn gynted ag y byddai'r Llywodraeth yn sicrhau bod arian ar gael i'r Cyngor. Dywedodd wrth y Cyngor y byddai'n parhau i lobio yn y maes hwn gan ychwanegu bod yna ddwsinau o safleoedd o'r fath, rhai mewn amodau gwaeth na'r safle a nodwyd gan y Cyngorydd Jarman. Gorffennodd yr Arweinydd trwy ailadrodd eto y byddai'n parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf ychwanegol. ”

CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR A DYRANNU RHYBUDDION O GYNIGION

Yn ei adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wrth yr Aelodau am ganlyniad yr adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod, yn dilyn yr is-etholiad yn Ward Rhondda. **PENDERFYNWYD:**

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Materion Cyfathrebu, i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, ar ôl iddo dderbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grŵp gwleidyddol, mewn unrhyw achos o dderbyn ceisiadau dilynol ar gyfer newid i aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'i gyfeirio at y Cyngor.
3. Nodi nad yw Aelodau'r Cabinet yn gymwys i'w penodi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu na Phwyllgorau Craffu.
4. Nodi bod modd i o leiaf un Aelod o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgorau Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd, ond bod Arweinydd y Cyngor wedi'i eithrio o'r swyddi yma.
5. Dyrannu'r 20 Rhybudd o Gynnig fel sy'n ofynnol o dan Reol Gweithdrefn y Cyngor 10.2(a) dros Flwyddyn 2019-2020 y Cyngor fel a ganlyn:-

Llafur: 10
 Plaid Cymru: 5
 Y Gynghrair: 2
 Annibynnol: 1
 Y Blaid Geidwadol: 1
 'Aelodau heb eu Neilltuo': 1

DATGANIAD O GYFRIFON AR GYFER CBS RHONDDA CYNON TAF A CHRONFA BENSIWN RHONDDA CYNON TAF 2018/19

Cyflwynodd Mr M Jones, Swyddfa Archwilio Cymru, Archwiliad Datganiadau Ariannol 2018-19 i'r Aelodau mewn perthynas â Chyngor Bwrdeistref Sirol RhCT a Chronfa Bensiwn RhCT, gan nodi bod y broses ar gyfer archwilio cyfrifon wedi gweithio'n dda, gyda'r Cyngor yn cwblhau'r archwiliadau yn gynharach na'r dyddiad cau statudol, a hynny heb aberthu ansawdd y datganiadau ariannol a gynhyrchwyd. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa y byddai'r Prif Archwilydd yn rhoi ei farn a chyflwyno'r dystysgrif unwaith i'r datganiadau ariannol yma gael eu llofnodi.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y gwaith a gafodd ei gynnal o ran cwblhau'r datganiadau ariannol a bodloni'r terfynau amser. Byddai hyn o gymorth mewn perthynas â therfynau amser gofynnol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD y byddai'r Aelodau'n nodi cynnwys y cyflwyniad.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol Ddatganiad o Gyfrifon i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Yn dilyn ystyriaeth, **PENDERFYNWYD** -

1. Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1), a'r Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig (Atodiad 2).
2. Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf (Atodiad 3), a'r Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig (Atodiad 4).
3. Cymeradwyo a nodi safle alldro terfynol y Cyngor, sydd wedi'i archwilio, ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019 a lefel y Balansau Cyllid Cyffredinol (paragraff 7.4 o'r adroddiad); ac
4. Nodi ystyriaethau a sylwadau Pwyllgor Archwilio 10 Mehefin 2019 yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (paragraffau 10.1 ac 10.2 o'r adroddiad).

46 CYNLLUN ARIANNOL Y TYMOR CANOLIG 2019/20 TAN 2022/23

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ddiweddariad i Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20 tan 2022/23, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth cyllideb 2020/21 yn ystod misoedd yr hydref.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Sector Cyhoeddus yn parhau i wynebu cyfnod hir o doriadau gwirioneddol o ran cyllid a disgwylir cyfnod heriol i wasanaethau ar draws llywodraeth leol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod llawer o wasanaethau'n wynebu pwysau cynyddol a chostau cysylltiedig ar ben hyn, yn enwedig ym maes Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr mai'r awgrym diweddaraf gan Lywodraeth Ganolog y DU oedd bod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, sy'n gosod terfynau gwario/cyllido'r sector cyhoeddus, ddim yn debygol o ddigwydd yn ôl yr amserlen wreiddiol yn ystod misoedd yr hydref 2019. Byddai goblygiadau'r oedi ar setliad llywodraeth leol 2020/21 yng Nghymru yn allweddol wrth gynllunio rhagdybiaethau'r Cyngor.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 7 yr adroddiad, ac esboniodd y Cyfarwyddwr ei bod yn debygol y byddwn yn wynebu bwloch sylweddol yn y gyllideb yn ystod 2020/21 ac am y 2 flynedd ddilynol, yn amodol ar lefel y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd y gallai'r strategaeth ragweithiol sydd wedi'i mabwysiadu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyflawni arbedion effeithlon sylweddol o hyd, trwy adnabod arbedion yn gynnar a thargedu meysydd allweddol fel caffael, a chanfod ffyrdd newydd o weithio. Daeth a'i sylwadau i ben trwy roi gwybod unwaith y byddai'r Cyngor yn derbyn y Setliad Dros Dro, o ystyried y gweithredoedd sydd eisoes ar y gweill, byddwn ni'n mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y gyllideb trwy gymryd camau er effeithlonrwydd a phrosesu newidiadau yn y lle cyntaf. Drwy hynny, bydd modd diogelu'r gwasanaethau rheng flaen gwerthfawr gymaint â phosibl.

Siaradodd yr aelodau am yr ansicrwydd gyda'r adolygiad gwariant cynhwysfawr a'r goblygiadau o ran trosglwyddo cyllideb, gyda'r Arweinydd yn cyfeirio at ansicrwydd grantiau penodol a dyraniad cyllid yn dod ymlaen a oedd ar gael o'r blaen mewn perthynas â phensiynau a dyfarniadau cyflog athrawon. Ar ôl trafodaeth fanwl, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â 'Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2019/20 i 2022/23' a chael diweddariad pellach yn yr hydref yn rhan o'r broses pennu cyllideb flynyddol.

47 ARIANNU RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF TRWY DDEFNYDDIO AMODAU BENTHYCA DARBODUS (PRUDENTIAL BORROWING)

Trwy ei adroddiad, ceisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol gymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf o £9.743 miliwn ar gyfer creu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun, a gytunwyd yn flaenorol gan y Cabinet; a chytundeb tuag at ariannu adeiladu'r ysgol newydd trwy grant Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, gan ariannu cyfraniad y Cyngor o arian benthyca'r Cyngor gan ddefnyddio ei bwerau o dan y Cod Darbodus.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Cytuno i gynnwys Ysgol Gynradd Hirwaun newydd yn y rhaglen gyfalaf ar gyfanswm cost o £9.743 miliwn.
2. Cytuno y caiff cost cyfalaf net y Cyngor o £3.410 miliwn ei ariannu trwy fenthyca, gan ddefnyddio pwerau'r Cyngor o dan y Cod Darbodus, gyda'r gost refeniw flynyddol o £0.133 miliwn yn cael ei thalu o arbedion sy'n deillio o hyn a chynlluniau ad-drefnu ysgolion blaenorol eraill.

48 ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli'r Trysorlys a Chod Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol trwy Reoliadau, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol, 2003, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol wybodaeth i'r Aelodau am y canlynol: -

- Gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod 2018/19; a
- Gwir Ddangosyddion Darbodus a Dangosyddion y Trysorlys ar gyfer 2018/19.

Yn dilyn sylwadau gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen a thrafodaeth, **PENDERFYNWYD** - nodi cynnwys yr adroddiad.

49 ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR AR GYFER 2019/20

Cyflwynodd Prif Weithredwr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol drafft y Cyngor i'r Aelodau, sy'n cynnwys manylion cynnydd ar gyfer 2018/19 a chynlluniau ar

gyfer 2019/20 o ran tair blaenoriaeth strategol y Cyngor. Cafodd yr Aelodau wybod bod yr adroddiad hefyd yn nodi sut mae'r Adroddiad yma'n galluogi'r Cyngor i fodloni ei ofynion adrodd statudol.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr Adroddiad a oedd yn manylu ar yr Adroddiad drafft, a oedd wedi'i strwythuro o amgylch Blaenoriaethau'r Cyngor, sef yr Economi, y Bobl a'r Lle. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Adroddiad yn darparu trosolwg o gynnydd a chynlluniau i Aelodau Etholedig, partneriaid, trigolion, staff a rheoleiddwyr, ynghyd â chynnwys gwybodaeth fanwl bellach.

Cafodd yr Aelodau wybod bod yr Adroddiad drafft hefyd wedi'i gyflwyno i'r Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad at ddibenion cyn craffu ac i'r Cabinet ar 8 Gorffennaf.

Trafododd yr aelodau agweddau ar yr adroddiad yn fanwl er eu bod yn teimlo ar y cyfan fod yr adroddiad yn adlewyrchiad ac asesiad teg a chytbwys o waith y Cyngor, gan dynnu sylw at y ddau wasanaeth sy'n gweithio'n dda a meysydd yr oedd angen eu gwella ymhellach.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Adroddiad drafft (fel y mae yn Atodiad 1 o'r adroddiad) gan ystyried sylwadau'r Aelodau.

50 CYNIGION AM GYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL AR GYFER PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu drosolwg i'r Aelodau o'i adroddiad, a oedd wedi derbyn cymeradwyaeth y Cabinet ar 18 Mehefin 2019.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Cytundeb y Fargen Ddinesig yn ymrwmo i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth ac i weithio ar y cyd ar faterion trafndiaeth strategol a chynllunio strategol. Ychwanegodd fod Cynllun Datblygu Strategol statudol yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr, buddsoddwyr a chymunedau bod penderfyniadau strategol allweddol yn ymwneud â darpariaeth tai, trafndiaeth, cyflogaeth ac isadeiledd yn cael eu gwneud ar lefel ranbarthol briodol, tra ei fod yn parhau i ganiatáu i benderfyniadau allweddol ar gynigion cynllunio gael eu cymryd yn lleol trwy ddyraniadau a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac wedi hynny mewn penderfyniadau rheoli datblygu.

Cafodd yr Aelodau wybod mai dim ond Awdurdod Cyfrifol dynodedig a allai gyflwyno cynnig i fwrw ymlaen â Chynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR), unwaith y bydd pob Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth yn ffurfiol. Cafodd yr Aelodau wybod y byddai Bro Morgannwg yn dod yn 'Awdurdod Cyfrifol' a rhoddodd y Cyfarwyddwr fanylion a sicrwydd i'r Aelodau o ran y trefniadau llywodraethu yn y dyfodol gan y Panel Cynllunio Strategol a'r cynrychiolwyr, gan gynnwys hawliau pleidleisio.

Yn dilyn trafodaethau manwl mewn perthynas â hawliau pleidleisio, cyllid a chraffu **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a chytuno y dylid awdurdodi'r Awdurdod Cyfrifol i gyflwyno'r Cynnig ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol

ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Gweinidog ar ran y 10 Awdurdod Cynllunio Lleol yn y rhanbarth.

2. Cymeradwyo Cyngor Bro Morgannwg fel yr Awdurdod Cyfrifol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
3. Cadarnhau y dylai'r ardal gynllunio strategol gynnwys y 10 ardal awdurdod cynllunio lleol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel y dangosir ar y map yn Atodiad A yr adroddiad.
4. Awdurdodi swyddogion perthnasol i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Strategol i sefydlu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cynllun a'r Panel Cynllunio Strategol fel y nodir ym mharagraffau 5.10 i 5.24 yr adroddiad.
5. Cytuno bod Carfan Swyddogion Rhanbarthol y Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â pharatoi'r Cynllun, i'w benodi gan gynrychiolwyr y Panel Cynllunio Strategol Dros Dro, gyda chymorth priodol gan adran adnoddau dynol yr Awdurdod Cyfrifol.
6. Cytuno bod cost paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei rhannu ar draws y 10 Awdurdod yn ôl cost gyfrannol yn seiliedig ar y gynrychiolaeth bleidleisio ar y Panel Cynllunio Strategol, i'w hadolygu'n flynyddol. Byddai hyn yn golygu cyfraniad cychwynnol o £6,520 gan Rondda Cynon Taf tuag at £50,005 ar y cyd i dalu am y costau cychwynnol sy'n debygol o ddigwydd yn y flwyddyn ariannol hon 2019/20. Nodir manylion y costau hyn a'r costau blynyddol pellach ym mharagraffau 5.30 i 5.40 yr adroddiad.

51 PENDERFYNIADAU BRYG O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2 (a), rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu wybod am benderfyniad brys a gyflwynwyd trwy benderfyniad dirprwyedig allweddol ar 8 Mai, 2019 mewn perthynas â 'Grant Porth Darganfod Parc Rhanbarthol Cymoedd Llywodraeth Cymru'; a **PHENDERFYNWYD** - nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad.

52 ENWEBIADAU I'R GRŴP CYFEIRIO RHANDDEILIAID

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu i'r Aelodau ei fod wedi derbyn hysbysiad am enwebiadau i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y cais am un gynrychiolydd sy'n Aelod ac un cynrychiolydd sy'n Swyddog. Cafodd yr Aelodau hefyd fanylion ynglŷn â phwrpas y Grŵp hefyd.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD**:

1. Enwebu'r Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis a'r Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned (Mr Paul Mee) i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am gyfnod o 3 blynedd;

2. Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn rhoi gwybod i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg pwy yw cynrychiolwyr y Cyngor.
3. Y byddai ailbenodi aelodaeth i'r Grŵp cyfeirio yn cael ei ystyried yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Cyngor 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**